

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae & gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae

Gaeaf 2007



Risg a gwytnwch



www.chwaraecymru.org.uk



Cynnwys

Tudalen

Golygyddol	2
Gweithredu ar Chwarae yng Nghymru	3
£2.2 miliwn ar gyfer isadeiledd chwarae yng Nghymru	4
Newyddion	5
Newyddion	6
Fentrwn ni ddarparu ar gyfer risg?	7
Y Diwylliant lawndal – agwedd amgen	8
Beio a hawlio ...	9
Wfft i'r diwylliant beio a hawlio	9
Diogelwch, iechyd a chwarae	10
Seminar Risg mewn Chwarae	12
Pleserau Syml	13
Chwarae Cynhwysol a Risg	13
'Aduniad' Gweithwyr Chwarae Antur	14
A yw'n well bod yn grwbau neu'n ysgyfamog?	16
Gwaith Chwarae Cymru	17
Ariannu a Digwyddiadau	18
Adolygu'r gyfrol "No Fear - growing up in a risk averse society"	18

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Baltig,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost:
gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
ISSN: 1755 9243

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan
 Carrick Business Services Cyf.
 Ffôn: 01443 843 520
 E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Golygyddol

Blwyddyn Newydd Dda i un ag oll!

Cafwyd llawer o sylw yn y cyfryngau'n ddiweddar ynghylch y dirywiad ym mhrofiad ein plant o blentyndod, felly pleser yw derbyn newyddion da ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd: croeso i Gomisiynydd Plant newydd Cymru sef Keith Towler; llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn rownd gyntaf rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR; a dewch inni gymeradwyo'r Cynulliad am ddarparu miliwn o bunnoedd y flwyddyn yn ychwanegol i gronfa Cymorth fel y gall rhagor o blant anabl gael mynediad i ddarpariaeth chwarae cynhwysol; a llongyfarchiadau i bob un yn Lloegr a lwyddodd i sicrhau newid yn ymrwymiad Llywodraeth Lloegr i chwarae plant trwy'r Cynllun Plant. Bydd pob un o'r rhain yn siŵr o helpu i wneud Prydain yn fan hapusach a mwy boddhaus i blant dyfu i fyny ynddo.

Ond, mae materion eraill sy'n peri inni yn Chwarae Cymru feddwl yn ddwys amdanynt.

Y mater cyntaf yw diffygioldeb y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith wrth ddeddfu ar gyfer diogelwch mewn chwarae plant. Rydym wedi bod yn eiriol dros ddarparu cyfleoedd ar gyfer mentro mewn darpariaeth chwarae ers amser maith, gan mai dyma'r hyn y

mae plant ei eisiau a'i angen. Beth ydym yn ei olygu wrth ddarparu risg mewn darpariaeth chwarae? Rydym yn golygu darparu cyfleoedd i blant brofi ansicrwydd, elfennau anhagweladwy, a pheryglon posibl fel rhan o'u chwarae, ond dydyn ni ddim yn golygu gosod plant mewn perygl o niwed difrifol. Darllenwch fwy am hyn trwy'r rhifyn hwn â'r thema – risg, ac ymunwch â'n hymgyrch – os feiddiwch chi!

Yr ail yw penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cytundeb i gwmni ymgynghorol i ddatblygu canllawiau a safonau ar gyfer chwarae plant yng Nghymru. Darn o waith sydd â'r potensial i hysbysu deddfwriaethau cenedlaethol yn y dyfodol. Cafodd cais Chwarae Cymru i gyflawni'r gwaith yma ei wrthod.

Mae hwn yn wriad diddorol oddi wrth ddatblygiadau blaenorol ym maes chwarae ar lefel cenedlaethol, sydd hyd yma wedi cael eu harwain i gyd gan asiantaethau Cymreig â diddordeb mewn chwarae. Hyderwn yn fawr iawn y bydd canlyniadau'r cytundeb hwn yn ateb disgwyliadau a dyheadau'r Cynulliad, a rhai pawb arall sydd wedi bod ynghlwm â, neu gaiff eu heffeithio gan, Gynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae.

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr

Ymwelwch â
www.chwaraecymru.org.uk
 am y newyddion a'r wybodaeth diweddaraf

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Gweithredu ar Chwarae yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfarnu cytundeb i symud rhai o gamau gweithredu mwyaf allweddol Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu blaen, i gwmni York Consulting.

Mae'r gwaith arbenigol yma, i ddatblygu safonau a chanllawiau ar gyfer manau chwarae awyr agored a darpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn hanfodol i ddyfodol llwyddiannus darpariaeth chwarae yn ein gwlad, ac rydym yn rhagweld bod gan hyn y potensial i hysbysu polisi'r Llywodraeth ar chwarae i'r dyfodol.

Mae Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys amserlen o gamau gweithredu wedi eu hanelu at gyflawni dyheadau'r Polisi Chwarae Cenedlaethol.

Mae datblygu safonau a chanllawiau'n cynrychioli cynnydd posibl ar rai o'r camau gweithredu.

Bydd y gwaith yn gofyn am weithredu i:

- i. Ddatblygu ac ymgynghori'n eang ar ganllawiau am yr hyn a olygir wrth gyfleoedd chwarae o safon ar gyfer plant a phobl ifanc. Dogfennu modelau o arfer sydd wedi eu cefnogi gan dystiolaeth gwerthuso gref ac sy'n addas ar gyfer defnydd uniongyrchol yn y maes. (Cam Gweithredu 2).
- ii. Gweithio gydag ymarferwyr, cymunedau, plant a phobl ifanc i ddatblygu safonau ar gyfer amrywiaeth eang o ddarpariaeth chwarae, fydd yn orfodol ar gyfer chwarae a ariennir gan grantiau penodol ac fydd yn cynnig arweiniad i ddarpariaeth chwarae arall. Bydd y safonau'n adeiladu ar y Safonau Isafswm Cenedlaethol sy'n bodoli eisoes ar gyfer Chwarae Mynediad Agored. Byddant yn annog cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a dylunio cyfleusterau chwarae lleol. (Cam Gweithredu 4). Bydd y safonau'n diffinio meinchnod cyhoeddus o daro cydbwysedd rhwng risg a budd mewn chwarae ar gyfer pob darparwr chwarae. (Cam Gweithredu 15).
- iii. Datblygu ac ymgynghori'n eang ar arweiniad i Awdurdodau Lleol Cymru ynghylch darpariaeth chwarae cymunedol priodol fydd yn galluogi datblygu rhaglen 'ardal chwarae wedi ei hadeiladu gan y gymuned' trwy Gymru gyfan. Bydd yr arweiniad yn cyfannu'r Nodiadau Cyngor Technegol ar gyfer Cynllunio. (Cam Gweithredu 9).

Gofynnodd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgilliau y dylai'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir o dan y cytundeb hwn annog chwarae cynhwysol ac y dylai adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol, ieithyddol a daearyddol Cymru.



Gobeithion mawr yn lansiad Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae



Dylai ystyried y ffactorau neilltuol sy'n ymwneud â rhyw, hil, ethnigrwydd, crefydd, ffydd, anabledd yn ei holl ffurfiau, a theuluoedd difreintiedig, tra'n cydnabod nad yw tlodi chwarae wedi ei gyfyngu i deuluoedd anoddach i'w cyrraedd yn unig.

Cychwynnodd y cytundeb ar y 30ain Tachwedd 2007 a dylid cyflwyno'r deunyddiau terfynol i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgilliau o fewn y flwyddyn.



£2.2 miliwn ar gyfer isadeiledd chwarae yng Nghymru

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

Mae'r Loteri FAWR wedi cyhoeddi'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer rownd gyntaf y rhaglen Chwarae Plant – grantiau sydd, ar draws Cymru gyfan, yn gwneud cyfanswm o £2.2miliwn.

Caerdydd a Bro Morgannwg

Bydd y prosiect yn creu isadeiledd chwarae ar draws y ddwy sir. Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol lleol a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol, bydd Cymdeithas Gwasanaethau Chwarae Caerdydd a'r Fro yn cyflogi swyddog gweithredol rhanbarthol i glustnodi a chefnogi'r gwasanaethau presennol ac i ddatblygu darpariaeth newydd ar gyfer cyfleoedd chwarae.

Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro

Bydd y cydlynedd ddatblygiad rhanbarthol yn sefydlu cymdeithas chwarae ranbarthol, ac yn datblygu a chefnogi rhwydweithiau chwarae lleol yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro er mwyn gwella a chynyddu'r gefnogaeth ar gyfer darparwyr chwarae ar draws pob sector.

Ceredigion

Bydd y prosiect yn cyflogi swyddog datblygu prosiect llawn amser er mwyn dod â'r holl bartneriaethau a fforymau ynghyd i ffurfio un grŵp trosfwaol o gynrychiolwyr (Cymdeithas Chwarae Annibynnol) i wella darpariaeth chwarae yng Ngheredigion. Caiff y Gymdeithas Chwarae Annibynnol ei rheoli gan Ray Ceredigion a'i chydlynu gan y swyddog datblygu prosiect.

Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr

Bydd y prosiect yn cyflogi swyddog gweithredol llawn amser, gweithiwr cefnogol rhan amser a gweinyddwr rhan amser i gynorthwyo i ddatblygu'r isadeiledd ymhellach yn RhCT ac i greu isadeiledd ym Mhen-y-bont ar Ogwr er budd darparwyr chwarae yn y ddwy ardal.

Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot

Bydd y prosiect yn parhau i gyflogi cyfarwyddwr a swyddog cyllid llawn amser a chaiff un swydd, i swyddog cyllid rhan amser newydd, ei chreu i ddatblygu'r isadeiledd ymhellach yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bydd y prosiect yn cynnwys atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y partneriaethau chwarae a'r partneriaethau fframwaith a chynyddu'r gymhareb o bartneriaid sector gwirfoddol yn y ddwy ardal.

Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chaerffili

Bydd y prosiect yn pennu blaenoriaethau ar gyfer chwarae, yn cydlynu gwasanaethau chwarae, yn gweithredu fel modd o hyrwyddo pwysgirwydd cyfleoedd chwarae plant ac i ddarparu isadeiledd i



gefnogi swyddogion datblygu a darparwyr gwerin gwlad yn natblygiad a chynladwyedd cyfleusterau chwarae lleol a rhanbarthol.

Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy

Bydd y prosiect yn cyflogi dau swyddog datblygu chwarae rhanbarthol i weithio gyda'r tri awdurdod lleol i greu Fforwm Chwarae cyfansoddiadol Gogledd Orllewin Cymru, fydd yn gweithio gyda'r tri awdurdod lleol, y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorau / Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol a Chynghorau Tref a Chymunedol Lleol.

Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy

Bydd y prosiect yn creu partneriaeth traws-sirol er mwyn datblygu a gweithredu isadeiledd chwarae ar draws y siroedd hyn, fydd yn cynnwys fforwm chwarae leol ym mhob un. Bydd yr isadeiledd yn darparu a chynllunio ar gyfer chwarae plant.

Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam

Bydd y prosiect yn cyflogi swyddog datblygu llawn amser a swyddog datblygu rhan amser i ddatblygu isadeiledd yn y siroedd hyn. Caiff Fforwm Chwarae Gogledd Ddwyrain Cymru ei ffurfio o nifer o sefydliadau o bob ardal awdurdod lleol (yn statudol a gwirfoddol) a bydd yn cwrdd i drafod a datblygu strategaeth chwarae ar y cyd ac i werthuso blaenoriaethau chwarae ym mhob un o'r tair ardal.

www.lotteryfunding.org.uk/cymru/uk/big-lottery-fund



Thema Diwrnod Chwarae 2008

Mae Play England wedi cyhoeddi mai'r thema ar gyfer Diwrnod Chwarae 2008 fydd **risg**.

Cytunwyd ar y thema'n unfrydol gan grŵp llywio Diwrnod Chwarae yn dilyn ymgynghori.

Mae'r grŵp llywio bellach yn gofyn am awgrymiadau er mwyn i brif negeseuon a theitl yr ymgyrch gael eu datblygu. E-bostiwch eich syniadau at Amy Little – Alittle@ncb.org.uk

Cynhelir Diwrnod Chwarae 2008 ar Ddydd Mercher 6ed Awst. Ac fel arfer, cynhelir digwyddiadau trwy gydol yr haf.

Comisiynydd Plant Newydd i Gymru

Llongyfarchiadau i Keith Towler, cyfarwyddwr Aclub y Plant Cymru, ar gael ei benodi'n Gomisiynydd Plant newydd Cymru. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd. Mae hyn yn newyddion gwych i blant a phobl ifanc Cymru.

Comisiwn Chwarae Yr Alban

Lansiodd Play Scotland Gomisiwn Chwarae Yr Alban yn Senedd yr Alban ar Ddydd Iau 13eg Rhagfyr 2007.

Bydd hwn yn darparu argymhellion o safon i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban ynghylch gwella cyfleoedd chwarae plant yn Yr Alban a gwneud hawl plant i chwarae'n realiti.

Cynllun Plant i Loegr

Cyhoeddwyd Cynllun y Plant, strategaeth £1 biliwn dros ddeng mlynedd ar gyfer addysg, lles a chwarae, gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd, Ed Balls ym mis Rhagfyr 2007. Mae'r Cynllun yn datgan:

'Dywedodd rhieni a phlant wrthym eu bod eisiau manau diogel i chwarae y tu allan, ac fe wyddom fod gan chwarae fuddiannau go iawn i blant. Byddwn yn gwario £225 miliwn dros y tair blynedd nesaf er mwyn cynnig cyllid cyfalaf i bob awdurdod lleol, fyddai'n caniatáu ail-adeiladu neu adfywio hyd at 3,500 o feysydd chwarae trwy'r wlad a'u gwneud yn hygyrch i blant ag anableddau; creu 30 o feysydd chwarae antur newydd ar gyfer plant 8 i 13 mlwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig, wedi eu goruchwyllo gan staff hyfforddedig; a byddwn yn cyhoeddi strategaeth chwarae erbyn Haf 2008'.

Dywedodd Adrian Voce, cyfarwyddwr Play England: "Mae cynllun da ar gyfer chwarae'n gynllun da ar gyfer plentynod. Mae'r hyn a ddywedodd Ed Balls yn awgrymu iddo wrando o ddiffir ar blant ac ar y pryderon sy'n bodoli ynghylch y dirwiad mewn cyfleoedd i chwarae y tu allan. Mae'r llywodraeth wedi edrych ar fuddiannau darpariaeth chwarae da ac mae'n barod i ymateb."

Llwythwch gopi o'r cynllun i lawr o www.dfes.gov.uk

Canllaw Play England i reoli risg mewn darpariaeth chwarae

Penodwyd Tim Gill, Bernard Spiegel a David Ball gan Play England i gynhyrchu canllaw ymarferol i reoli risg mewn darpariaeth chwarae.

Bydd y canllaw'n annog mabwysiadu agwedd tuag at ddarpariaeth chwarae sydd ddim yn chwilio'n awtomatig am y llwybr 'diogel' ond sydd yn hytrach yn galluogi darparwyr chwarae i ddatblygu a rheoli darpariaeth chwarae heriol a symbylol. Bydd yr adnodd yn ganllaw 'sut i' ymarferol i reoli risg o fewn darpariaeth chwarae a bydd yn cynnwys trafodaeth ynghylch oblygiadau athronyddol ceisio herio darpariaeth gwrth-risg.

Cyhoeddir y canllaw ym mis Mawrth 2008.

Am ragor o wybodaeth ewch i
www.playengland.org.uk



Adroddiad Newydd Draig Ffynci

Yn ddiweddar cyhoeddodd Draig Ffynci (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru) adroddiad newydd – *Pam fod oeddrannau pobl yn mynd i fyny ac nid i lawr?*



Mae'r adroddiad yn gofyn i ba raddau y gall plant rhwng saith a 10 mlwydd oed gael mynediad i'w hawliau (yn unol â diffiniad Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Cymerodd dros 2500 o blant o bob cwr o Gymru ran yn y gwaith ymchwil, a thynnodd 93 y cant ohonynt lun gweithgaredd awyr agored neu weithgaredd egniol fel eu hoff le pan ofynnwyd iddynt ble neu beth y maent yn hoffi ei chwarae.

Dywed yr adroddiad: 'Trwy'r adroddiad hwn i gyd ceir thema fynych y cyfeiriodd y plant ati ym mhob gweithdy. Mae'r canfyddiadau hyn yn arddangos mai chwarae yw'r cais mwyaf sylfaenol y gallai plentyn ei wneud, a'i fod yn effeithio arnynt ym mhob maes o'u bywydau'.

I lwytho copi o'r adroddiad i lawr ymwelwch â www.funkydragon.org/cy/

Adroddiad Newydd ar Blentyndod

Cyhoeddwyd adroddiad newydd, **Seen and Heard: Reclaiming the public realm with children and young people**, a gomisiynwyd gan Play England, ym mis Tachwedd gan y 'seiat ddoethion', Demos.

Mae'r adroddiad yn galw am gyflwyno cyfyngiad cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl ac am greu rhagor o fannau chwarae mewn "lleoliadau eiconig" fel Sgwâr Trafalgar ac ar i blant allu adrodd am oedolion sy'n ceisio cyfyngu ar eu hawl i chwarae y tu allan.

Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar archwiliadau o fannau cyhoeddus a chyfweiliadau gyda phlant ar draws Lloegr. Dywed y cydawdur Celia Hannon:

"Mae manau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol gan bobl ifanc i chwarae ac i archwilio defodau plentynod yn prysur datflannu. Oni bai bod pobl ifanc mewn gweithgareddau strwythuredig neu'n ymddwyn fel mini-ddefnyddwyr, rydym yn cymryd eu bod yn creu helynt. Mae angen i'n strydoedd, ein sgwarau a'n parciau fod yn hygyrch ac yn rhwydd i bawb eu mwynhau, neu bydd y pryder sy'n bodoli eisoes ynghylch ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn tyfu'n waeth. Mae'n bryd agor ein trefi a'n dinasoedd i fyny i bawb ac i'w gwneud yn fwy chwareus. Dylid gweld a chlywed ein plant."

I gefnogi'r gwaith ymchwil yma mae Demos wedi gosod fideo ar wefan YouTube:

http://uk.youtube.com/watch?v=sf75iz_MaOg

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho pdf o'r adroddiad i lawr ymwelwch â:

<http://www.demos.co.uk/publications/seenandheardreport>

'Trysorfa o wasanaethau'

Ym mis Rhagfyr lansiodd Jane Hutt AC, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, adroddiad newydd yn gwerthuso rôl llyfrgelloedd teganau a gwblhawyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol gyda Chymdeithas Genedlaethol y Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden yng Nghymru. Mae'r adroddiad, a ysgrifennwyd gan Robat Powell a Nia Seaton – "Trysorfa o wasanaethau" – yn archwilio rôl llyfrgelloedd teganau mewn polisi chwarae yng Nghymru.

Am gopi o'r adroddiad ymwelwch â: www.natll.org.uk neu â: www.nfer.ac.uk

Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri

Mae Plant Anabl yn Cyfri Cymru (PACC) yn grŵp o sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn cynnwys plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd sy'n lobbio am well mynediad i gyfleoedd chwarae a hamdden o safon.

Darparodd Chwarae Cymru gyngor ar chwarae cynhwysol, a chymryd rhan mewn derbyniad yn y Senedd ar ddiwedd 2007 ble y cyfarfu Aelodau'r Cynulliad â phlant a phobl ifanc anabl a siarad â chynrychiolwyr y sefydliadau dan sylw. Yn hwyrach cyhoeddodd Y Gweinidog dros Blant, Jane Hutt AC, filiwn o bunnoedd ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf ar ben cyllid pellach parhaus trwy Cymorth, yn debyg i'r hyn a ryddhawyd yn 2007.

Roedd Keith Bowen, cyfarwyddwr Cyswilt Teulu Cymru, yn falch o ganlyniadau lobbio PACC:

"Mae ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru'n croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch ymestyn ariannu Cymorth ar gyfer chwarae cynhwysol. Bydd yr ymgyrch yn awr yn cydweithio gyda swyddogion i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y ffordd ymlaen ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf."

Mae plant a phobl ifanc anabl bob amser yn gosod "pethau i'w gwneud a llefydd i ymweld â nhw" ar ben eu rhestr o flaenoriaethau ac mae ymgyrch PACC eisiau i chwarae cynhwysol fod wrth galon y cynllun gweithredu gaiff ei gyflwyno i'r Gweinidog yn y Flwyddyn Newydd.

Byddwn yn cydweithio'n agos â Chwarae Cymru a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau y bydd y cynllun gaiff ei gyflwyno gan y tasglu'n gwneud gwir wahaniaeth i blant a phobl ifanc anabl'.

Fodd bynnag, ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud, daeth yn amlwg na chaiff yr arian ei 'neilltuo' ar gyfer chwarae i blant anabl o fewn Cymorth. Bydd Chwarae Cymru'n ymgyrchu'n weithredol dros agwedd fwy strategol ac am arweiniad cwbl eglur er mwyn sicrhau y caiff yr arian ei wario'n ddoeth ac at y diben a fwriadwyd.


Mae trefnwyr yr ymgyrch yn annog aelodau o'r cyhoedd i ysgrifennu at eu cynghorwyr a'u gweidyddion lleol, ac i blant a phobl ifanc ddefnyddio gwefan Draig Ffynci i fynegi eu barn.

Dysgwch ragor, neu ymunwch â'r ymgyrch ar: www.dcmw.org.uk



Fentrwn ni ddarparu ar gyfer risg?

Dengys gwaith ymchwil a phrofiad os y caiff plant gyfleoedd i wynebu ansicrwydd ac i ddelio â pheryglon posibl, y byddant yn datblygu gwytnwch – mae eu hagwedd tuag at fywyd yn tyfu'n fwy hyderus a gallant ddelio'n well â'r hyn y bydd ein byd ansicr yn ei dafllu atynt.



Os y caiff plant eu gwarchod rhag unrhyw beth allai o bosibl fod yn emosiynol neu'n gorfforol niweidiol, bydd ganddynt lai o siawns tyfu'n bobl gwydn, cadarn all sefyll ar eu traed eu hunain a gwrthsefyll ergydion bywyd.

Mae plant angen, ac yn chwilio am risg – mae'n rhan naturiol o dyfu i fyny – mae'n fodd o ddysgu sut i oroesi. Os na fyddwn yn cyflwyno cyfleoedd i brofi risg mewn sefyllfa chwarae, bydd plant yn ceisio'r wefr a'r ymdeimlad o gyflawni rhywbeth ddaw gyda goresgyn ofnau mewn mannau sy'n llai priodol, ble nad oes pobl brofiadol o amgylch i gadw llygad arnynt. Gallant ymarfer cymryd risg o fewn terfynau cymharol ddiogel y man chwarae.

Mae ein diwylliant yn y wlad hon yn tueddu i awgrymu fod plant yn ddi-glem ac yn analluog – rydym yn dechrau o safbwynt ble nad ydym yn ymddiried ynddynt i allu ymrol am eu hunain nac i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mewn diwylliannau eraill, y cynsail cyntaf yw bod plant yn gymwys ac yn alluog – yr unig wahaniaeth yn y plant yw ein hagwedd ni tuag atynt. Mae'r mwyafrif llethol o blant, y rhan fwyaf o'r amser, yn ddigon abl i farnu eu gallu a'u doniau eu hunain ac i benderfynu os ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n llawn risg ai peidio; bydd y plant hynny sy'n methu neu sy'n ansicr ynghylch llunio barn o'r fath, angen cefnogaeth pobl eraill (gan gynnwys plant) sy'n fwy profiadol.

Dywed un o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae: *Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg a'r budd datblygiadol a lles plant.* **Nid** yw'n dweud writhych greu coelcerth anferth mor fawr â phosibl ac yna troi eich cefn arni a gadael i'r plant ofalu amdani, nac i godi plentyn nad ydych yn ei hadnabod allan o'i chadair olwyn a'i gwithio i lawr llithren, nid yw'n dweud chwaith, os fydd plentyn sydd â fawr ddim rheolaeth dros ei freichiau am ddefnyddio cyllell grefft y dylem ei rhoi iddo a throi ein cefn arno. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n tybio bod gweithwyr

chwarae'n bobl synhwyrol, cyrifol sydd yn meddu ar synnwyr cyffredin ac y byddant yn defnyddio'r synnwyr cyffredin yma yn eu swydd.

Beth mae taro cydbwysedd rhwng risg a budd yn ei olygu?

Golyga hyn lunio barn am amgylchedd neu gyfle chwarae penodol y gall fod plant awydd ymuno ynddo – gan bwyso a mesur y budd yn erbyn y risg o niwed difrifol.

Budd i blant –

plant yn dod i wybod yr hyn y gallant ymdopi ag e'; deall canlyniadau eu gweithredoedd eu hunain; plant yn tyfu'n gryfach yn gorfforol; plant yn dysgu sgiliau; plant yn ennill dealltwriaeth; plant yn ennill ymdeimlad o lwyddiant; plant yn tyfu'n fwy hyderus; plant yn teimlo'n fwy galluog; a phlant yn cyfranogi ac yn gwneud cyfraniad.

Niwed difrifol i blant –

plant yn marw; plant yn cael eu niweidio'n ddirifol ac yn barhaol neu yn cael eu amharu'n gorfforol; achosi dechrau afiechyd sy'n fygythiol i fywyd; plant yn dioddef o drawma meddyliol difrifol tymor hir.

Mae crafiadau, cnociau a chleisiau, mân gytiâu, llosgiadau bychain, gwlychu neu faeddu a chael cnoc i falchder, i gyd yn rhan o dyfu i fyny – nid yw'r rhain yn golygu niwed difrifol oni bai bod un ohonynt yn fygythiol i fywyd neu'n debygol o arwain at afiechyd difrifol tymor hir.



Y Diwylliant Iawndal – agwedd amgen

Mae Dayton Griffiths, Rheolwr Risg ac Yswiriant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wedi lleihau hawliadau'n erbyn yr awdurdod 70%. Cafodd ein Swyddog Datblygu, Michelle Jones, sgwrs ag e' am ei agwedd 'amgen', a dyma oedd ganddo i'w ddweud:

Wedi eu hudo gan y dilyw o ymgyrchoedd hysbysebion 'no win no fee', mae'n bosibl y bydd rhai bellach yn meddwl yn syth bod anafiadau'n gyfle i wneud arian. Mae hyn wedi arwain at weld cwmnïau preifat ac awdurdodau lleol yn cael eu peledu â hawliadau'n eu herbyn. Yn ogystal â nifer fechan o hawliadau dilys, ceir rhai hefyd sydd yn ffug, sy'n cael eu gwneud ar hap ac sy'n amheus. Oherwydd y llif o'r mathau hyn o hawliadau, mae'r taliadau dros ben ar ein polisïau yswiriant wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu am y mwyafrif o'r hawliadau hyn (rhai ohonynt gymaint â chwarter miliwn o bunnoedd) allan o'r un pwr â'r un sy'n ariannu adrannau eraill, megis Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd rhai cwmnïau preifat ac awdurdodau lleol yn ceisio dileu eu perygl o wynebu hawliadau o'r fath trwy gwtogi eu gweithgareddau; trwy ganslo teithiau ysgol neu nosweithiau tân gwylt a thrwy wahardd gemau ar feysydd chwarae. Yn hytrach na chyfoethogi ansawdd ein bywydau, yn fy marn i, mae gwneud hyn yn lleihau ansawdd bywyd – **mae damweiniau'n digwydd.**

Rydym ni yn Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'r farn y dylem ganiatáu i weithgareddau yr oeddem ni'n ddigon ffodus i gymryd rhan ynddynt pan yn ifanc, barhau. Rydym yn llunio'r farn yma o werth yn seiliedig ar ddealltwriaeth o fuddiannau datblygiadol profiadau chwarae amrywiol ac yn cydnabod bod risg yn ymhyg mewn cyfleoedd chwarae cyfoethog. Fel awdurdod lleol byddwn yn darparu cefnogaeth ac amddiffyniad i gyflogai sy'n gweithio gyda phlant, i sicrhau y gall y profiadau chwarae hynny gael eu mwynhau, heb ofn mynd i gyfraith.

Mae Iechyd a Diogelwch yn broses sy'n caniatáu inni oll gyflawni'r hyn sydd ei angen ac i wneud hyn mewn modd mor ddiogel â phosibl – NID yw i fod i'n rhwystro i gyflawni neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ag elfen o risg.

Sut allwn ni barhau i ddarparu cyfleoedd chwarae sy'n cynnwys elfen o risg, a hynny'n ddiogel?

- Cwblhau asesiad risg a sicrhau y caiff mesurau diogelwch rhesymol (synnwyr cyffredin) eu rhoi yn eu lle.
- Sicrhau lefel digonol o oruchwyliaeth.
- Ymgynghori â'ch adran iechyd a diogelwch neu â'ch adran yswiriant a rheoli risg os ydych angen cymorth.

- Efallai fod gan eich yswirwyr gweithgareddau oddi ar y safle feddalwedd allai eich helpu gydag asesiadau risg a mesurau diogelu.
- Cadwch BOB gwaith papur yn ymwneud â'r weithgaredd.
- Dylech hysbysu eich adrannau iechyd a diogelwch ac yswiriant ar unwaith ynghylch unrhyw ddamwain.
- Rhoddwch gymaint â phosibl o wybodaeth a dogfennau, gan gynnwys asesiadau risg, i'ch adran yswiriant i'w galluogi i amddiffyn unrhyw hawliadau allai godi'n sgîl cynnal y weithgaredd.

Mae gweithdrefnau asesiadau risg yn bodoli i'n cynorthwyo – nid oes angen iddynt fod yn gymhleth neu'n hir. Yn syml iawn, y cyfan y maent yn ei wneud yw ystyried y risg sy'n gysylltiedig â gweithgaredd benodol, lefel gallu y rhai fydd yn cymryd rhan ynddi a'r mesurau rhesymol sydd eu hangen er mwyn rheoli'r perygl o anafiadau.

Mae damweiniau'n digwydd, ond os y gallwn arddangos i risgiau'r weithgaredd benodol gael eu hystyried, ac i fesurau RHESYMOL gael eu cymryd i sicrhau bod y weithgaredd mor ddiogel â phosibl, yna gallwn amddiffyn unrhyw hawliadau posibl mewn modd effeithlon.

Ni ellir fyth diddymu risg yn gyfan gwbl, ond ddylen ni fyth stopio cynnal gweithgareddau sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad a mwynhad pob un ohonom.

Dros y chwe blynedd diwethaf mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi:

- parhau â'n holl weithgareddau, y mae rhai awdurdodau eraill wedi eu gwahardd, ond o fewn rheoliadau risg rhesymol a derbyniol.
- lleihau achosion o fynd i gyfraith yn erbyn yr Awdurdod 70%.
- rhyddhau dros £10 miliwn o arbedion o'n cronfa hawliadau hunan-yswiro yn ôl i wasanaethau llinell flaen.
- lleihau ein cost risg blynyddol dros £2m.
- ennill pedair gwobr iechyd a diogelwch genedlaethol.

Mae ein hagwedd wedi sicrhau y gallwn ddarparu'r gefnogaeth a'r amddiffyniad angenrheidiol i'n staff i gyd a pharhau â'r gweithgareddau hynny sy'n hanfodol i ddatblygiad ein plant ac ansawdd bywyd trigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae rheoli risg yn allweddol i'r agwedd yma. Ni ddylid caniatáu i drachwant y lleiafrif effeithio ar ansawdd bywyd ein plant. Dylai pobl broffesiynol ym maes yswiriant a risg a iechyd a diogelwch gefnogi a darparu'r fframwaith fydd yn caniatáu i'n plant chwarae a phrofi'r risgiau sy'n rhan annatod o fywyd bob dydd, tra'n darparu cefnogaeth a diogelwch i bob un sy'n gweithio gyda plant.

Dayton F Griffiths

Rheolwr risg ac yswiriant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 01443 863430



Mae hawliad am iawndal yn cael ei brosesu'n erbyn Canolfan Plant Integredig Cwm Gwenfro yn dilyn damwain ar wifr-lithren uchel yn eu maes chwarae antur wedi ei staffio – dywed ein asesiad risg, a'n rheolau, na ddylai mwy na dau o bobl ei defnyddio ar yr un pryd. Daeth tri pherson ifanc i lawr y gwifr-lithren gyda'i gilydd – cwmpodd un a thorri ei fraich. Roedd y tri pherson ifanc yn gwybod y rheol ac fe wnaethant benderfynu cymryd y risg, ond, mae'r hawliad yn symud yn ei flaen trwy'r system yswiriant gan ei bod yn rhatrach i setlo nag yw hi i fynd i'r llys.

Beio a hawlio...

Colin Powell, Rheolwr Maes Chwarae Antur Cwm Gwenfro sy'n siarad am ganlyniadau'r diwylliant beio a hawlio:

Ble mae hyn yn ein gadael ni fel darparwr chwarae?

Mae ein maes chwarae antur wedi ei leoli mewn ardal ble y mae'r mwyafrif o deuluoedd yn llwyddo i fodoli ar incwm isel iawn – prin iawn yw unrhyw foethusion neu ddanteithion. Os y caiff yr hawliad hwn ei setlo heb fynd i'r llys bydd yn anfon neges y gellir gwneud arian o wneud hawliadau yn ein herbyn. Bydd nifer yr hawliadau'n cynyddu, felly er efallai i'r cwmni yswiriant arbed arian yn y tymor byr, mae'n debygol o wario mwy o arian yn y tymor hir, a bydd ein tâl yswiriant ninnau'n cynyddu. Bydd hyn yn peryglu'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu a bydd plant lleol yn dioddef.

Yn y cyfamser, mae'r wifr-lithren uchel wedi torri, ond tydw i ddim am frysio i chwilio am y darn newydd sydd ei angen, er i'r llythren gael ei defnyddio'n barhaus

pan oedd yn gweithio ac y byddai'n denu plant a phobl ifanc i'r maes chwarae. Mae ei gwerth chwarae'n aruthrol; caiff nifer o gemau eu datblygu yno; mae nifer fawr o brosesau chwarae'n dod i'r amlwg; ac mae llaweroedd o blant a phobl ifanc hapus a chyffrous yn aros yn amyneddgar am eu tro. Ac eto, tydw i ddim yn awyddus iawn i'w gweld yn ôl yn gweithio.

Pam? Wrth wreiddyn fy amharodrwydd (er gwaethaf dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ar feysydd chwarae antur) saif y cwestiwn y bydd pawb ohonom yn ei ofyn ar brydiau: a yw'r risg tymor hir i'n sefyllfa chwarae'n werth y gwerth chwarae? Rwyf yn dal yn ansicr ynghylch yr ateb, ond rwy'n siŵr unwaith y bydd y darn newydd yn cyrraedd y bydd y rhes o blant a phobl ifanc fydd yn fy nychu i drwsio'r gwifr-lithren yn ateb y cwestiwn.

Wfft i'r Diwylliant Beio a Hawlio

Os ydym yn meddu ar bolisiau a gweithdrefnau cryfion gallwn wrthsefyll cael ein profi gan hawliadau manteisgar a chario'r dydd heb fynd i'r llys. Frank O'Malley o Rwydwaith Chwarae Leeds sy'n sôn wrthym am brofiad diweddar:

Mae Rhwydwaith Chwarae Leeds yn rhedeg prosiectau chwarae stryd gyda gweithwyr chwarae maes, sydd ddim yn petruso rhag darparu cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn "chwarae mentrus".

Yn ystod un o'r sesiynau neidiodd bachgen i ganol glaswellt hir a thorri ei goes yn wael ar lafn rasel oedd wedi ei daflu yno. Aeth mam y bachgen ag e' i'r ysbyty. Roedd angen pwythau arno, ond roedd yn iawn ac o fewn ychydig ddyddiau dychwelodd i chwarae yn y prosiect. Yn y cyfamser cyflwynodd ei fam, gyda chefnogaeth cwmni cyfreithiol "No Win No Fee", hawliad am iawndal am yr anaf.

Aeth Frank ati ar unwaith i hysbysu cwmni yswiriant y Rhwydwaith, a anfonodd aseswr allwn i weld "faint o arian fyddai raid ei gynnig i gael gwared â'r un oedd yn gwneud yr hawliad" – i setlo heb fynd i'r llys. Dangosodd Frank bolisiau a gweithdrefnau'r Rhwydwaith iddo ynghylch risg, y ffurflenni asesu risg cyffredinol gaiff eu llanw'n rheolaidd, ac eglurodd ynghylch yr asesu risg dynamig sy'n rhan o bob arfer gwaith chwarae da. Yn ogystal, dangosodd ddyddiaduron myfyrion gweithwyr chwarae'r Rhwydwaith i'r aseswr, oedd yn dangos

ar ddiwrodd y ddamwain bod pob ymdrech rhesymol wedi ei wneud i waredu peryglon oddi ar y safle (e.e. "... casglwyd tri bag siopa o faw cŵn heddiw ...").

Adroddodd yr aseswr yn ôl i'r cwmni yswiriant, a wnaeth herio'r hawliad. Tynnodd y teulu eu hawliad yn ôl, a'r cyfan sydd raid i'r Rhwydwaith ei wneud yn awr yw cadw'r holl waith papur am yr anaf tan fod y bachgen yn 18 mlynedd oed, rhag ofn iddo benderfynu hawlio ar ei ran ei hun fel oedolyn.

Ar yr un pryd, argymhellodd yr aseswr i'r cwmni yswiriant, o ystyried y modd trylwyr sydd gan y Rhwydwaith o ddelio â risg, y dylai eu lefel atebolrwydd gael ei ostwng, ac y dylid cwtfogi eu taliadau yswiriant. O ganlyniad i hyn, mae'r Rhwydwaith bellach yn talu llai am yswiriant nag oeddent cyn i'r hawliad gael ei wneud.

Dywed Frank mai moeswrs y stori yw hyn: os ydym yn meddu ar bolisiau a gweithdrefnau pwrpasol wedi eu cyfuno ag arfer gwaith chwarae da, gallwn wrthsefyll hawliadau a chyfleu'r neges: nad oes unrhyw bwrpas gwneud hawliadau manteisgar yn erbyn darparwr chwarae. Mae'n werth cael ein profi weithiau, gallwn elwa'n arw, ac fe fyddwn yn dysgu'n union pa mor dda ydyn ni!

Cysylltwch â Frank O'Malley ar 0113 243 5566

Caiff polisïau a gweithdrefnau Rhwydwaith Chwarae Leeds eu cefnogi gan ddatganiad safbwynt y Fforwm Diogelwch Chwarae "Managing Risk in Play Provision" y gellir ei lwytho i lawr o dudalen Chwarae a Risg ein gwefan, a dogfen Playlink "Negligence, play and risk – legal opinion" y gellir ei lwytho i lawr oddi ar www.playlink.org.uk



Diogelwch, iechyd a chwarae Amser i ailfeddwl?


Mae'r Athro David Ball o'r *Centre for Decision Analysis and Risk Management School of Health and Social Science*, ym Mhrifysgol Middlesex yn galw am ailfeddwl ynghylch deddfwriaethau cyfredol.

Pa mor debygol yw hi bod y rhai a luniodd Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA) wedi bwriadu i'r ddeddfwriaeth yma fod yn berthnasol, nid dim ond i'r gweithle, ond i reoli pethau fel profiadau chwarae plant, tiroedd ysgol, parciau cyhoeddus, sgwarau mewn dinasoedd, coetiroedd, a gweithgareddau chwaraeon a hamdden? Yr ateb, fwy na thebyg, yw na wnaeth y peth groesi eu meddyliau o gwbl. Ond erbyn hyn mae'r Deyrnas Unedig yn ei chael ei hun gyda deddfwriaeth sy'n berthnasol i chwarae plant gafodd ei gynllunio i amddiffyn gweithwyr mewn ffatrioedd a swyddfeydd.

Mae'r Ddeddf ei hun yn un dda iawn, cyn belled â bod rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol dan sylw – mae'n ddam o ddeddfwriaeth y gellir bod yn falch ohono. Mae hyn oherwydd yr athroniaeth y mae'n seiliedig arno. Os edrychwch chi ar boster yr HSA sy'n crogi ar y wal yn eich gweithle, fe sylwch fod y geiriau "cyn belled â'i fod yn rhesymol ymarferol" yn cael eu hailadrodd drosodd a thro, a dyma wraidd yr athroniaeth. Yr hyn y mae hyn yn ei awgrymu yw y dylid defnyddio math o brawf cost-budd ar gyfer mesurau diogelwch arfaethedig i weld os ydynt yn rhesymol ac yn werth eu rhoi ar waith. Er enghraifft, os yw mesur diogelwch arfaethedig yn hynod o gostus ac y disgwyliar iddo gael fawr ddim budd o ran diogelwch, ni fyddai'n ofynnol o dan y Ddeddf. Ar y llaw arall, mae'n rhaid, yn ôl y Ddeddf, defnyddio mesurau sy'n cynnig cymhareb budd i gost ffafriol. Mae'r athroniaeth yma'n amcanu i gynhyrchu'r lles gorau ar gyfer y nifer fwyaf o gronfa gyllid benodol ei maint. Mae cyfraniad yr athroniaeth yma i lunio penderfyniadau ym Mhrydain yn aruthrol, a gellir ei weld ar waith ym mhob sector o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Mae gwneud y defnydd cywir ohoni'n helpu i sicrhau bod y wlad yn gwneud y gorau o'i hadnoddau.

Ond, dywed Adran 3 yr HSA y dylai'r Ddeddf fod yn berthnasol nid yn unig i weithwyr, ond hefyd i ymwelwyr â gweithleodd, a gyda threigl amser daeth hyn i gael ei ddehongli, yn gywir neu'n anghywir, fel cynnwys ymwelwyr â pharciau cyhoeddus, coedwigoedd, a hyd yn oed fannau chwarae, gan y gellid dweud, gydag ychydig o ddychymyg, bod y rhain yn 'weithle i unigolion'. Ac o'r herwydd, mae'r Weithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) bellach yn ei gyfrif ei hun yn rheolydd ar gyfer rheoli diogelwch yn y manau hyn.

Mae'r tueddiad hwn, i ddefnyddio'r HSA yng nghyd-destun manau cyhoeddus yn cynnwys manau chwarae, wedi esgor ar nifer o ganlyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i asesu risg bron â bod popeth, gwaith papur i arddangos iddo gael ei gyflawni, a lledaeniad dulliau asesu a datrysiaid fel a geir mewn ffatrioedd i mewn i'r sector cyhoeddus. Gall hyn fod yn



faich. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau addysgol, fel y soniodd Yr Athro John Adams o Goleg Prifysgol Llundain, wedi cynhyrchu ffurflenni asesu risg 50 o dudalennau o hyd ar gyfer teithiau myfyrwyr. Wrth gwrs, mae'r HSE wedi ymateb ar ei wefan nad yw rheoli risg synhwyrol yn galw am gynhyrchu pentyrtau o waith papur di-bwrpas, ond pe bai damwain yn digwydd ar eich patsh chi y ffaith syml yw y bydd mynydd o waith papur o fwy o ddefnydd na dalen fach unig. Mae'n ymddangos ein bod wedi ein cornelu mewn sefyllfa weddol wirion o ganlyniad i ganlyniadau anfwriadol yr HSA.

Yn ogystal, ceir materion pwysicach y dylem bryderu yn eu cylch. Mae'n debyg y bydd darllenwyr â phrofiad personol, ac y byddant yn ymwybodol o nifer o achosion y cyfeiriwyd atynt yn y cyfryngau, o wahardd llawer o weithgareddau y bu i bobl eu mwynhau yn y gorffennol. Ymysg y rhain mae pethau fel dringo coed, adeiladu cuddfannau, dosbarthiadau coginio a gwaith coed mewn ysgolion, chwarae pêl-droed yn ystod amser chwarae, ac ymlaen ac y mlaen yr â'r rhestr. Mae rhywbeth difrifol iawn ar droed pan fydd plant a phobl ifanc yn colli



cyfleoedd i chwarae, i gymdeithasu, i archwilio, neu jest i fod yn hwy eu hunain, ond mae nifer o sylwedyddion yn cytuno bod y fath broses yn bodoli ers dros ugain mlynedd a mwy.

Tynnwyd rhagor o sylw at y mater yn gynharach eleni pan adroddodd UNICEF mai plant Prydain sy'n profi'r plentyndod gwaethaf yn Ewrop, ac er bod hyn wedi ei herio'n ddiweddar, mae rhywfaint o wirionedd ynddo. Mae nifer o asiantaethau eraill, yn cynnwys Cymdeithas y Plant, y Cyngor Chwarae Plant, y *Better Regulation Commission* a'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch, wedi crybwyll pryderon tebyg. All pob un o'r rhain ddim bod yn anghywir.

Mae hyn yn codi problem arall y gellir ei chysylltu â gorgyffwrddiad asesu risg arddull diwydiannol i mewn i feysydd cyhoeddus sy'n cynnwys chwarae. Nod yr asesiadau hyn yn syml iawn yw, fel y dywed yr HSE, lleihau risg. Mae'n bosibl iawn bod hyn yn wir mewn amgylchedd ffatri, ond mewn bywyd cyhoeddus dylai fod agwedd hanfodol arall i unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar gynnal gweithgaredd neu brofiad, sef, eu buddiannau. Mae gan brofiadau chwarae nifer fawr o fuddiannau (yn cynnwys iechyd). Mae chwarae mewn coedwigoedd, er enghraifft, yn cynnig buddiannau anferthol, fel y mae chwarae yn y rhan fwyaf o amgylcheddau naturiol a llawer o fannau cyhoeddus; bydd defnyddio methodolegau asesu risg gyda manau o'r fath, heb roi ystyriaeth benodol a digonol i'r buddiannau hyn, yn creu hafog gyda'n hamgylchedd a'n profiadau bywyd. Ond pur anaml, os o gwbl, y bydd ffurflenni safonol a methodolegau asesu risg yn sôn am y gair 'budd', a hyd yn oed os ydynt, mae'n aneglur sut y maent wedi eu hymgorffori yn y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w wneud.

Bydd methu ystyried buddiannau, neu leihau eu pwysigrwydd trwy fod yn llai agored yn eu cylch, yn anrnod yn arwain at sefyllfa ble y caiff llawer o brofiadau chwarae eu hysgubo ymaith gan y chwifla am ddiogelwch rhag niwed. Yr unig beth sy'n rhwystro hyn rhag digwydd yw efallai rhyw ronyn o synnwyr cyffredin sy'n parhau yng nghefn meddwl yr aseswr risg. Ond, mae hwn yn droedle bas a simsan iawn i ddibynnu arno. Mae profiadau gydag achosion llys, ble y bydd arbenigwyr yn cyflwyno tystiolaeth, wedi dangos yn gwbl eglur bod llawer o arbenigwyr mewn achosion o anafiadau yn unrhyw beth ond arbenigwyr mewn materion sy'n bwysig i ddatblygiad, iechyd a lles plant. Mae'n debyg bod pethau o'r fath y tu hwnt i'w harbenigedd, o leiaf tra'u bod yn gweithredu o fewn eu rôl broffesiynol. Prin y byddai'r HSE ei hun yn hawlio eu bod yn arbenigwyr ar fagwraeth plant, profiadau chwarae, addysg, neu hud taith gerdded heb ei goruchwilio trwy'r goedwig, waeth faint yr hoffent ddweud hynny.

Mae canlyniadau hyn yn niferus ac yn ddwfn, fel a nodwyd gan UNICEF a'r holl asiantaethau eraill uchod, ac hefyd, er enghraifft, gan y bargyfreithwr anafiadau personol Jerome Mayhew pan soniodd fel a ganlyn:

"Mae pobl ifanc yn eu harddegau wedi colli eu lle yn amgylchedd rheoledig y maes chwarae ac wedi symud i amgylchedd anhydryn y stryd, y rheilffordd, neu'r ganolfan siopa ... a yw'r cynnydd mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol ymysg pobl ifanc yn eu harddegau yn sgîl-effaith bisâr i broses safoni iechyd a diogelwch?"

('Safety and Health Practitioner', Rhagfyr 2007)

Wrth gwrs mae cysylltiadau o'r fath yn anodd iawn i'w profi, ond ni ddylid ac ni ellir eu diystyru'n ddidaro. Dylem fod yn llawer mwy gwyladwrs a beimiadol o effaith deddfwriaethau a safonau ar ein bywydau, rhag inni ddifetha'r pethau hynny yr ydym yn eu gwerthfawrogi fwyaf.

Dysgwch ragor ar <http://www.mdx.ac.uk/risk/index.htm>

Medd Chwarae Cymru:

Rydym yn galw am greu deddfwriaeth newydd fydd yn golygu canlyniad cadarnhaol ar gyfer plant a'u chwarae, ac o ganlyniad eu gwynwch a'u cadernid.

Yn wreiddiol, nid oedd unrhyw fwiad i'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) ddellio â chwarae plant ac nid yw'n gweddu i'w phwrpas. Mae rhai fyddai'n dadlau bod y Ddeddf yn ddigonol – ac yn syml iawn ei bod yn fater o'r modd y caiff y Ddeddf ei dehongli. Ond, mae'n amlwg bod y Ddeddf yn agored i amrywiaeth o ddehongliadau ble fo chwarae plant dan sylw – a bod rhai ohonynt yn niweidiol i ddatblygiad iach plant. Bydd y dehongliadau hyn yn arwain pobl i gymryd yn ganiataol bod yn rhaid iddynt gymryd camau sy'n dileu pleserau syml. Mae'n rhaid creu deddfwriaeth, fel pan fyddwn yn barnu gweithgareddau ac amgylcheddau ar gyfer plant y caiff y tebygolrwydd o niwed ei farnu'n erbyn y tebygolrwydd o fudd i'r plentyn.

Nid ydym yn dweud ein bod am i blant gael eu niweidio – yn syml iawn, rydym yn gofyn am ddefnyddio agwedd synnwyr cyffredin sy'n cefnogi chwarae plant a'r rheini sy'n ei ddarparu.

Rydym wedi lansio ymgyrch eisoes ac wedi dechrau llobio'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau. Os hoffech nodi eich enw ar restr o gefnogwyr e-bostiwrch angharad@chwaraecymru.org.uk





Seminar Risg mewn Chwarae

Fel rhan o'n gwaith i gefnogi trosglwyddo rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR, cynhaliwyd seminar, 'Cyflwyno a Darparu Risg Mewn Chwarae', ym mis Hydref.

Daeth y seminar â chynllunwyr chwarae, swyddogion diechyd a diogelwch ac arolygwyr darpariaeth chwarae ynghyd – am y tro cyntaf yn y DU.

Nod y seminar oedd mynd i'r afael â phryderon ynghylch darparu risg o fewn amgylcheddau chwarae er mwyn sicrhau bod ceisiadau ar gyfer rownd dau'r rhaglen Chwarae Plant yn gallu ymateb i Nodiadau Arweiniol y Loteri FAWR. Mae'r Nodiadau Arweiniol yn cyfeirio'n gwbl eglur at Bolisi Chwarae a Chynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, y mae'r ddau ohonynt yn ymwneud â'r angen i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant ble y gallant brofi her ac ansicrwydd.

Defnyddiodd dros 100 o gyfranogwyr y seminar yma fel cyfle i ddechrau dialog ac i barhau i gyfrannu tuag at resymwaith eglur ar gyfer darparu risg o fewn chwarae; cytunodd y mwyafrif bod plant angen ac eisiau profi risg fel rhan o'u chwarae. Galwodd llawer o gyfranogwyr y seminar, am fabwysiadu agwedd synnwyr cyffredin a chroesawyd yr arweiniad arfaethedig a ddisgwyllir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyd-destun ansawdd a meincnod cyhoeddus ar gyfer taro cydbwysedd gyda risg mewn chwarae.

Cytunodd y cyfranogwyr fod plant yn dysgu am risg emosiynol a chorfforol trwy eu chwarae: trwy eu chwarae a'u mentro bydd plant yn tyfu'n wydn. Mae plant angen gwytnwch oherwydd nad yw'n byd yn gynnes a mwythus fel gwlan cotwm, mae'n gignoeth, yn siarp, yn gas ac ysgogol, mae'n ein bwrw allan o'n siâp ac yn ein plygu am yn ôl, mae'n peri inni gael ergydion a chleisiau a sgriffiadau.

Galwodd y seminar am fodd mwy creadigol o ystyried gweithdrefnau ac arferion mewn cynllunio, asesu risg ac archwilio darpariaeth chwarae. Mae hyn yn hanfodol os ydym i gwrdd â gofynion a ffocws strategol rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR.



Gwell asgwrn wedi ei dorri ...

Defnyddiodd Chwarae Cymru y digwyddiad hwn i lansio crys-T sy'n cario'r slogan, 'gwell asgwrn wedi ei dorri nag ysbryd wedi ei dorri,' a ysbrydolwyd gan Yr Arglwyddes Allen o Hurfwood, pensaer tirwedd ac addysgwraig a arloesodd y mudiad maes chwarae antur cynnar yn y Brydain oedd ohoni wedi'r rhyfel. Pan ofynnodd yswirwyr gor-eiddgar iddi amdalffyn y tebygolrwydd o ddamweiniau allai

ddigwydd o ganiatáu i blant fentro, dywedodd "mae'n well mentro coes wedi ei thori nag ysbryd wedi ei dorri. Gall coes wastad wella. Efallai na wnaiff ysbryd." Nid ydym yn dadlau bod pobl yn cefnogi torri coesau; mae'r slogan yn pwysleisio y gall canlyniadau peidio â chaniatáu cyfleoedd i blant reoli risg ac ansicrwydd fod yn waeth na'r risg o anafu eu hunain.

Os hoffech brynu crys-T yr ymgyrch ymwelwch â www.chwaraecymru.org.uk neu galwch Kate yn ein swyddfa genedlaethol ar 029 2048 6050.

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND





Pleserau Syml

Pan fyddwn yn siarad am ddarparu risg mewn darpariaeth chwarae nid ydym yn siarad am ofodi pob plentyn i gynnu tanau nac i hongian oddi ar ganghennau uchel, rydym yn siarad am ddarparu ar gyfer angen plant i brofi eu hunain a chefnogi eu dymuniad i fod yn anturus – gan roi cyfleoedd iddynt ymateb i'r newydd, yr annisgwyl neu'r ansicr.

'Mae iechyd a diogelwch synhwyrol yn ymwneud â rheoli risgiau, yn hytrach na diddymu pob un ohonynt. Nid yw'n fwrriad gan yr HSE i ddiidymu **pleserau syml** ble bynnag y byddant yn ymddangos ac ar ba bynnag gost. Rydym yn cydnabod buddiannau chwarae i ddatblygiad plant, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhywfaint o risg, ac ni ddylid aberthu hyn wrth anelu am y nod anghyraeddadwy o ddiogelwch llwyr.'

Y Weithgor Iechyd a Diogelwch, 2005

Mae mesur risg yn fater personol – mae gan bob plentyn ei allu neu ei gallu ei hunan – felly fel darparwyr chwarae bydd angen inni fabwysiadu agwedd hyblyg, sensitif a synhwyrol er mwyn darparu ar gyfer anghenion pob plentyn. Er enghraifft, bydd rhai plant yn sylweddoli bod hyd yn oed meddwl am gerdded ar hyd wal uchel yn gwneud iddynt deimlo'n bryderus, tra bo eraill yn gwbl hyderus ac yn ei weld yn rhywydd yn gorfforol – bydd rhai plant yn gweld risg mewn dweud 'helo' wrth rywun

newydd, neu mewn gwlychu eu dillad.

Mae syniad un plentyn o rywbeth sy'n llawn risg yn syniad plentyn arall o gael ei lapio mewn gwllân cotwm. Gan amlaf mae plant yn ddigon abl i farnu eu gallu a'u doniau eu hunain; byddant yn eu gwithio eu hunain ychydig ar y tro gan nad ydynt am niweidio eu hunain.

Ni allwn, fel darparwyr chwarae, warantu diogelwch absoliwt pan fo plant yn ein gofal ond fe allwn, yn raddol, gyflwyno elfen o'r ansicr, yr heriol a'r cyffrous, fel ein bod yn darparu'n llawn ar gyfer anghenion datblygiadol plant.

"Pan oeddem rhwng chwech a deg mlwydd oed byddem yn mynd i'r coed ar ein pen ein hunain. Byddem yn adeiladu cuddfannau, yn archwilio, yn cael anturiaethau ac yn chwarae yn yr afon. Byddem yn cynnu tanau (fel arfer 'doedd yr un oedolyn yn gwybod am hyn, ond roeddem yn dai i'w wneud). Ar gorau oll oedd dringo'n uchel yn y coed a threulio amser yno'n siarad ac yn gwyllo. Byddem yn adeiladu siglenni, rhai

oedd yn dda i ddim ac yn ein bwrw'n erbyn y goeden, a rhai oedd yn wych oedd yn ein cario allan yn uchel dros lawr y goedwig oedd yn syrthio'n llechwedd yn is oddi tanom wrth inni fentro siglo'n uwch ac uwch." Ben, 32

Heddiw, byddwn yn siarad am ddarparu cyfleoedd chwarae cydadferol i blant – i wneud yn iawn am y rhai naturiol y byddem ni oedolion yn eu canfod yn naturiol unwaith. Nid yw'n ffocws ar risg yn ymwneud â hyrwyddo risg ar bob cyfrif na throli pob darpariaeth chwarae'n baradwys i 'adrenalin junkies'; mae'n ffocws sy'n anelu i ddatblygu dealltwriaeth o rôl hanfodol y newydd, y cyffrous, yr ansicr a'r anghweldadwy mewn chwarae plant. Agenda sy'n eiriol dros hawl plant i ddringo coed, i adeiladu siglenni, i fynd ar gefn beic, i sglefrallo, i adeiladu cuddfannau, i ddysgu defnyddio offer, i ddadlau, i gwmpo, i ymladd ac i wneud ffrindiau. Mae'n agenda sy'n datflu pleserau syml a chyflawniadau plentyndod.

Ceir fersiwn estynedig o'r erthygl hon ar ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cynhwysol a Risg

Yn aml iawn bydd plant anabl yn methu cael cyfle i brofi rhai o'r pleserau syml y gall plant eraill eu mwynhau.

Pasiodd Jo Jones, Swyddog Datblygu Chwarae Bro Morgannwg, y llythyr hwn ymlaen atom ac roedd yn rhaid inni gael ei rannu â chi. Llythyr gan fam Lizzie yw hwn:

Cefndir

Mae gan Lizzie (11 mlwydd oed) anawsterau dysgu, symudedd a chyfathrebu difrifol; mynychodd brosiect chwarae peilot a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg yr haf diwethaf. Cyflogodd y prosiect nyrs a staff gofal i gefnogi plant a phobl ifanc oedd ag anghenion meddygol dyrus.

Ar ddiwrnod glawog roedd nifer fawr o blant yn chwarae y tu allan ac yn mwynhau eu hunain. Pan ofynnwyd i un o'r staff gofal i newid Lizzie oherwydd ei bod wedi gwlychu yn y glaw yr ymateb a gafwyd oedd "Tydw i'n synnu dim, rydych wedi gadael iddi wlychu'n sopen – mae'r peth yn gwbl hurt!". Wedi siarad â mam Lizzie ar ddiwedd y diwrnod, derbyniodd Jo y llythyr hwn:

Annwyl Jo

... Roeddw mor falch i glywed bod Lizzie wedi cael amser i chwarae yn y glaw; chwarae â dŵr yw ei hoff fath o chwarae.

Mae eich tîm yn ein hadnabod ers nifer o flynyddoedd ac rwy'n gwybod os y byddaf yn gwneud cais i Lizzie i aros dan do ac i gadw'n sych am resymau iechyd, y byddwch yn gwneud popeth yn eich gallu i sicrhau hyn. Rwy'n gwybod hefyd, gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych o Lizzie, os na fyddaf yn gwneud cais o'r fath, y gallwch chi a'ch tîm wneud penderfyniad deallus ar addasrwydd y gweithgareddau y bydd yn cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys chwarae yn y glaw. Ar ddyddiau cynnes fel hyn, rwyf wastad wedi annog fy mhiant i fwynhau'r profiad o fod yn y glaw.

... Hyderaf y byddwch yn parhau i roi cyfleoedd iddi brofi'r pethau y mae'n eu mwynhau orau, sy'n cynnwys chwarae yn y glaw ble fo hynny, ym mam eich staff, yn briodol.



'Aduniad'

Gweithwyr Chwarae Antur

CW'LWM

Childcare Wales Learning & Working Mutually



Beth?

Gwersyll preswyl i 25 o weithwyr chwarae sydd ynghlwm â gwaith meysydd chwarae antur

Pryd?

Medi 2007

Ble?

Ystad wledig eang yng nghesail Bannau Brycheiniog.



'Cynnodd' Martin King Sheard o Chwarae Cymru rywaint o syniadau gyda gweithdy tân, a gyda'r nos cafwyd cerddoriaeth fyw a straeon gwaith chwarae o amgylch y tân.






Ffocws y deuddydd oedd cefnogi gweithwyr chwarae trwy ddarparu cyfle i chwarae gyda'r elfennau ac adeiladu strwythurau, a chafodd y strwythurau a adeiladwyd eu gadael ar gyfer plant fydd yn ymweld â'r safle yn y dyfodol.

Dyma feddyliau Ben Tawil, swyddog datblygu a threfnydd y digwyddiad, ar ddeuddydd gwyh:

"Treuliodd gweithwyr chwarae profiadol a newydd amser yn myfyrto gyda'i gilydd gan gofio nad ydynt yn gweithio ar eu pen eu hunain; mae pobl eraill allan yn y byd mawr sy'n rhannu eu huchelgeisiau ar gyfer plant – maent yn rhan o ddarlun cyflawn mwy o lawer ... Cefais fy suo i gysgu wedi diwrnod caled o waith gan gyfeiliant cerddorfa o chwyrnu o bob pabell. Dwn i ddim beth oedd waethaf, nhw neu'r defaid!"

Diolch i Nick ac Ellen o *Play Supply*, wnaeth yn siŵr bod gennym ddigonedd o fwyd a diod poeth, ac i Gwion a Jamie – hebddynt hwy fyddai'r tŷ pen coeden fyth wedi bod mewn cyflwr derbyniol ar gyfer plant fyddai'n ymweld â'r safle'n y dyfodol. Diolch yn arbennig hefyd i Julian Gibson Watt am ddarparu tir, cysgod a choed, ac i Ben Greenaway a Colin Powell am eu cymorth wrth gynllunio a chefnogi'r digwyddiad hwn. Fe fwynhaodd pawb y digwyddiad.

Os ydych chi'n weithiwr chwarae sydd ynghlwm â gwaith meysydd chwarae antur ac yr hoffech gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol e-bostiwch northoffice@playwales.org.uk



Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf roedd tŷ pen coeden yn dechrau siapio.





A yw'n well bod yn grwban neu'n ysgyfarnog?

Yma mae Ali Wood, ymgynghorydd hyfforddi ac asesu, sy'n ein cynorthwyo i ddatblygu'r cwrs P³ (Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith), yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein cynnydd wrth ei droi'n gymhwyster cydnabyddedig.

Bellach mae cannoedd o bobl wedi ymgymryd â'r hyfforddiant peilot Gwobr Lefel 2 ac mae amryw o'r rhain wedi symud ymlaen i gwblhau'r peilot Tystysgrif Lefel 2, felly cafwyd digon o ymholiadau ynghylch cynnydd gyda'r cwrs P³. Beth sy'n digwydd ynghylch cael y cymwysterau hyn wedi eu achredu? Beth am weddill lefel 2 a 3? "Mae unrhyw gynnydd i'w weld yn araf ofnadwy" meddai rhywun yn ddiweddar.

Fe all ymddangos felly allan yn y maes, ond mewn gwirionedd rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn; mae ceisio cael cymhwyster newydd sbon (a blaengar) wedi ei achredu'n broses gymhleth ac mae angen inni fod yn drylwyr. Mae'n rhaid i'r cwrs gael a) ei gadarnhau gan SkillsActive (y cyngor sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae), b) ei fabwysiadu gan gorff dyfarnu cydnabyddedig, ac c) ei gymeradwyo gan yr awdurdod cymwysterau rheolyddol. Mae pob un o'r prosesau hir yma'n gymhleth ac yn galw am: ail-fformadu canlyniadau dysgu a chriteria asesu i weddu â'u gofynion; mapio'r cymhwyster i gydweddu â nifer o safonau cenedlaethol; cwrrd â nifer o bobl o amrywiol gyrff; cwblhau ffurflenni a thempledi; gan adeiladu sicrwydd ansawdd i mewn iddo – wel, chi ofynnodd! Rydym yn hynod o falch, wedi ymdrech fawr a llawer o drafod, mai un o'n llwyddiannau yw ein bod bellach yn gweithio gyda'r *Scottish Qualification Authority*, corff dyfarnu'r Alban, sy'n rhannu ein cyffro ni ynghylch P³ gan ei fod yn wahanol, yn ddynamig ac yn effeithiol.

Yn ogystal â'r holl brosesau gweinyddol a gwleidyddol (gyda 'g' fechan), mae'n rhaid inni sicrhau bod yr isadeiledd yn ei le fel bod gweithwyr chwarae brwd a chymwys ynghlwm â'r gwaith o hyfforddi ac asesu – golyga hyn hyfforddi hyfforddwyr ac aseswyr. Rydym wedi llwyddo i gael ein derbyn fel canolfan asesu gyda'r *City and Guilds* er mwyn cynnig cymwysterau mewn hyfforddi ac asesu a gydnabyddir yn genedlaethol. Hyd yma, rydym wedi recriwtio a hyfforddi tua dau ddwsin o hyfforddwyr a nifer o aseswyr cymwysedig. Ond rydym angen llawer mwy.

Ym mis Ionawr, byddwn yn lansio cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n newydd i faes hyfforddi ac yn dechrau ar rownd arall ar gyfer aseswyr newydd yn y Gwanwyn, felly os ydych chi'n weithiwr chwarae profiadol sydd awydd newid y byd a dod yn rhan o'r broses, cofiwch gysylltu â ni – mae hwn yn gyfle gwych ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Ar ben hyn i gyd, rydym yn cwblhau Lefel 2 P³ ac yn datblygu P³ ar Lefel 3, sy'n cynnwys y dasg anferth o gynllunio, ysgrifennu, cynnal peilot, golygu, dylunio ac argraffu, heb son am sicrhau cyllid ar ei gyfer. Felly efallai ei bod yn ymddangos, i'r rheini ohonoch sydd y tu allan i'r broses, fod y cymwysterau'n cael eu sefydlu cyn arafed â chrwban, ond mae mwy i lwyddo i groesi'r llinell derbyn na dechrau ar ras wyll! Fel y dywedodd y crwban wrth yr ysgyfarnog, "*Slow and steady wins the race.*" Gallaf eich sicrhau ein bod yn gweithio'n galed ar ran pob un sydd wedi dechrau eisoes ar y P³ (ac i'r rheini sy'n debygol o ddangos diddordeb ynddo yn y dyfodol) i sicrhau y bydd hwn yn gymhwyster y byddai unrhyw weithiwr chwarae'n falch i feddu arno.

I ddysgu rhagor cysylltwch â Mel ar 029 2048 6050 neu â mel@chwaraecymru.org.uk

Lefel 3, Cyflwyniad i Drosglwyddo Dysg: 7302

Rydym yn cynnig cymhwyster City & Guilds a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gweithwyr chwarae cymwys hoffai ddod yn hyfforddwyr gwaith chwarae, sy'n addas ar gyfer pobl sydd awydd cyflwyniad i hyfforddi neu addysgu neu i rai sy'n anelu i symud ymlaen â'u gyrfa addysgu neu hyfforddi.

Gan fod hwn yn gwrs hyfforddi gwaith chwarae sydd hefyd yn ymbaratoi cyfranogwyr i drosglwyddo ein cyrsiau P³: Gwaith Chwarae – Rhoi Egwyddorion ar Waith, gallwn eich sicrhau y bydd yn heriol, yn gwneud i chi feddwl ac yn foddhaus iawn!

I ymgeisio ar gyfer y cwrs hwn, neu am ragor o wybodaeth, galwch 029 2048 6050 neu e-bostiwch mel@chwaraecymru.org.uk cyn gynted â bo modd gan fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig.



Gwaith Chwarae Cymru

Pleser yw cyhoeddi mai enw'r Ganolfan newydd ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg ar gyfer Gwaith Chwarae yw Gwaith Chwarae Cymru. Gallwn hefyd groesawu rheolwraig newydd y ganolfan, sef Jane Hawkshaw, fydd yn cyfarwyddo datblygiad y Ganolfan, gan ddisgwyl y bydd yn gweithredu'n llawn o fewn y tair blynedd nesaf.



Mae Jane wedi bod yn brysur iawn yn ystod ei hwythnosau cyntaf yn y swydd; yn cwrdd â chydweithwyr o'r sector chwarae yng Nghymru ac yn creu cysylltiadau gyda'r canolfannau hyfforddi yn Lloegr a gyda'r cyngor sgiliau sector gwaith chwarae, *SkillsActive*.

Mae wedi gwthio'r cwch i'r dŵr gyda datblygu canolfan wybodaeth a dysgu rhyngweithiol ar y we fydd yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a hyfforddwyr ac y gellir cael mynediad iddi ym mhob cwr o Gymru, o'r gymuned wledig leiaf i'r ddinas fwyaf. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys ymchwilio i faint, lleoliad, ariannu ac ansawdd hyfforddiant gwaith chwarae sy'n bodoli eisoes yng Nghymru yn ogystal ag anghenion hyfforddi'r sector gwaith chwarae ar gyfer y dyfodol. Bydd y Ganolfan yn creu data-bas o wybodaeth am y cyrsiau sy'n cael eu trosglwyddo yng Nghymru fel y gall darpar ddysgwyr, yn ogystal â chyflogwyr, ddysgu ble y gallant gael gafael ar hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae. Bydd Jane hefyd yn cadw golwg ar ddatblygiad strategaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus i weithwyr chwarae.

Caiff gwaith Gwaith Chwarae Cymru ei oruchwylio a'i yrru ymlaen gan gonsortiw m o weithwyr chwarae, cyflogwyr, hyfforddwyr, sefydliadau cenedlaethol a chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r sector wirfoddol.

Os hoffech ddysgu rhagor am Gwaith Chwarae Cymru, cysylltwch â Mel Welch yn swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru ar 029 2048 6050 neu â mel@chwaraecymru.org.uk



Jane Hawkshaw

Mae Jane wedi bod ynghlwm â gwaith chwarae a gwaith ieuenctid ers 1988, yn cynnwys cyfnod yn gweithio gyda'r Lluoedd Prydeinig yn Hong Kong yn datblygu darpariaeth chwarae ac yng Nghymru fel Swyddog Datblygu Hyfforddiant gyda *Youth Cymru*. Ei rôl diweddaraf oedd trosglwyddo cwrs 7302 *City and Guilds: Introduction to Teaching* ar ran Asiantaeth Ieuenctid Cymru.

Yn ystod ei hamser hamdden mae'n mwynhau teithio gyda'i theulu yn ei fan gweryslla ar hyd a lled Cymru.

Dywed Jane "Rwy'n edrych ymlaen at gyfnodau cyffrous a heriol yn y swydd hon ac at weithio gyda chi".

Er mwyn cysylltu â Jane, e-bostiwch jane@playwales.org.uk neu galwch hi ar 029 2048 6050.



Digwyddiadau

5 Mawrth 2008

“Out2Play” –

Cynhadledd Gwaith Chwarae Flynyddol SkillsActive

Maes Criced Lords, Llundain

www.skillsactive.com/resources/events/out2play

14 – 15 Mai 2008

Ysbryd Chwarae Antur

Holiday Inn, Caerdydd

www.chwaraecymru.org.uk

20 Mai 2008

“Places to Go”

Place shaping and sustainable transport for an accessible, child friendly public realm”

Canolfan Gynadledda Queen Elizabeth II, Westminster, Llundain

Gellir eostio i gofrestru eich diddordeb, cysyllter â RBarnes@ncb.org.uk

3 – 5 Tachwedd 2008

“Child in the City” –

4ydd Cynhadledd Ewropeaidd

Rotterdam

Cais am bapurau

www.europoint.eu/events?childinthecity

Ariannu

• MAWR – Gnewch iddo Ddigwydd

Mae'r Gronfa Pobl Ifanc yn rhannu grantiau o rhwng £500 a £5,000 ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 10 a 19 mlwydd oed. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw'r 31ain Ionawr 2008.

www.lotteryfunding.org.uk/cymru/uk/big-lottery-fund

‘No Fear – Growing up in a risk averse society’



Dyma deitl y llyfr newydd gan Tim Gill, yr awdur a'r ymchwilydd ar faterion plant, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd. Fe ofynnem i Mike Barclay, Swyddog Datblygu Chwarae Wrecsam, i ddweud wrthym beth oedd yn ei feddwl ohono:

‘Yn gyntaf, pur anaml y byddaf yn teimlo fel darllen am y pwnc yr wyf wedi gweithio arno trwy'r dydd – mae braidd fel gadael barbeciw sy'n para trwy'r dydd cyn mynd adre a sylweddoli mai'r unig beth sydd ar ôl yn yr oergell yw sosejts! Ond, roeddwn yn falch iawn i achub ar y cyfle i adolygu'r llyfr hwn, nid yn unig oherwydd yr oblygiadau i waith chwarae ond hefyd oherwydd yr effaith y mae osgoi risg yn ei gael ar blentynod yn gyffredinol.

Ar brydiau roedd y llyfr yn gwneud imi deimlo'n ddiogel ac yn rhwystredig ynghylch yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddo bellach – un o ymatebion eithafol i ddigwyddiadau prin. Ar brydiau eraill roeddwn yn teimlo'n weddol obeithiol bod cyfle ar ôl inni newid barn ac arferion ac y gall y sector gwaith chwarae wneud cyfraniad sylweddol. Ond yn bwysicaf oll, fe orffennais y llyfr wedi fy ysbrydoli ynghylch y ffyrdd y gallwn achosi newid trwy fy ngwaith.

Yn fy achos i, a'r rhan fwyaf ohonoch chi (rwy'n gobeithio), mae Tim yn pregethu i'r cadwedig, ond fe helpodd y llyfr hwn i gadarnhau yr hyn yr oeddwn yn ei amau eisoes, fe ehangodd fy ngwybodaeth o'r pwnc ac o'r herwydd bydd yn cefnogi fy nadleuon dros ddarparu risg mewn chwarae. Mae'r llyfr hwn wedi ei ysgrifennu ar lefel sydd o fewn cyrraedd i ystod eang o bobl. Credaf ein bod yn byw mewn cynnod pan fo rhagor o bobl yn tyfu'n fwy realistig ynghylch y risgiau y dylai plant eu profi ac mae'r llyfr hwn â'r potensial i ddarbwylo'r bobl hyn i ail-asesu'r modd y maent yn gweithio.

Dydwi i ddim yn dweud bod dadleuon Tim yn rhai chwyldroadol nac yn rhai gwreiddiol; mae'r llyfr hwn yn cymryd yr holl wahanol farnau sydd o blaid risg, yn eu pwyso a'u mesur yn erbyn digwyddiadau go iawn ac ystadegau, ac yna'n llunio daid gwbl eglur a chryno dros ganiatau i blant gael rhywfaint o gyfrifoldeb am eu lles eu hunain. Mae'n mynd cyn belled ag egluro weithiau y bydd mesurau diogelwch tybiedig mewn gwirionedd yn arwain at sefyllfaoedd sy'n fwy peryglus.

Mae hwn yn lyfr dewr a threfnus. Nid yw Tim yn camu'n ôl rhag cydnabod bod damweiniau trasig yn digwydd sy'n achosi poen aruthrol i'r teuluoedd dan sylw, ond mae angen i gymdeithas gadw ei phersbectif a pheidio â chyflwyno mesurau eithafol ar gyfer digwyddiadau prin oherwydd bod y canlyniadau'n niweidiol i'r mwyafrif o blant, nid dim ond i unigolion.

Yn olaf, mae'n siŵr mai'r gwir arwydd o lyfr da yw pan y cewch eich hun yn cyfeirio ato mewn sgwrs, ac ers ei ddarllen rwyf wedi dyfynnu Tim ar o leiaf dri achlysur gwahanol.

Mae 'No Fear' yn ymuno â'r ddadl cynyddol boeth ynghylch rôl a natur plentynod yn y DU. Dros y 30 mlynedd diwethaf mae gweithgareddau y bu cenedlaethau blaenorol o blant yn eu mwynhau heb unrhyw ailfeddwl, wedi cael eu labelu fel rhai trwblus neu beryglus, a chafodd yr oedolion sy'n caniatáu i'r gweithgareddau hyn ddiwydd eu labelu'n anghyfrifol. Mae 'No Fear' yn dadlau bod plentynod yn cael ei danseilio gan dwf osgoi risg a'i ymyrraeth ym mhob agwedd o fywydau plant'.

Gellir llwytho'r llyfr a chrynodeb ohono i lawr am ddim oddi ar www.gulbenkian.org.uk

Gellir archebu copïau o'r llyfr (£8.50 + p & p) oddi ar www.centralbooks.co.uk (ISBN 978 1 903080 08 5)